Diolch

Ein diolch cywiraf i Sion Meredith am ei gyfraniad hael i goffrau'r ysgol yn dilyn ei daith beic noddedig a gynhaliwyd yn ystod yr haf.

Diolch hefyd i Nia Huw am ei chymorth parod yn y dosbarthiadau tra'n arsylwi yn yr ysgol cyn cychwyn ar ei chwrs TAR. Pob dymuniad da iddi.

Arad Goch

Cafodd Dosbarth 2 a 3 gyfle i weld Cwmni Theatr Arad Goch yn perfformio "Hel Meddyliau" yn eu theatr yn Aberystwyth yn ddiweddar. Cynhaliwyd gweithdai gyda'r plant yn yr ysgol yn dilyn y perfformiad a chafwyd ymateb da gan y plant.